

Drudwen Wridog

Dieithryn a gynhyrfodd ddyfroedd ardal y Creuddyn yn ddiweddar.

Cafodd sylw hefyd yn y wasg.

Drudwen wridog, Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn.

Mehefin 17

Aderyn o ddwyrain Ewrop a gweddol ddieithr i Gymru.

(Llun Alun Williams)



Hanes, Rhyfel ac Adar yn Swdan

Gan fy mod yn ymddiddori mewn adar a materion cyfoes, a chan fy mod yn cael fy hunan ar hyn bryd yn byw mewn gwlad sydd â digonedd o gynnwrf yn y ddau faes tybiais y byddai'n ddifyr cyfuno'r ddau ddiddordeb mewn un lliith. Yn wir mae Swdan erbyn hyn wedi'i rhannu'n ddwy wlad – Swdan, a gwlad fwyaf newydd y byd, De Swdan, a hynny ar ôl blynyddoedd maith o ryfel cartref – ac os ydych wedi gwyllo'r newyddion rhyngwladol dros y misoedd diwethaf, fe sylwch nad yw'r rhannu wedi rhoi taw ar y rhyfela o bell ffordd.

Wrth reswm mae'r adar yn ddigyfnewid yn hyn i gyd – ond eisoes mae blogspots adarwyr Swdan eisoes wedi rhannu'n ddau - 'Birding Sudan' a 'Birding South Sudan' - roedd hi'n rhy wleidyddol sensitif i gadw dim ond un blog i gwmpasu'r ddwy wlad ar ôl yr ymwahanu. Yn y cyfnod modern mae cwbl ardal Swdan i bob pwrpas wedi'i hanwybyddu gan lyfrau adar modern ac er mwyn adara yn Swdan mae'n rhaid wrth 'Birds of the Horn of Africa' sydd mewn gwirionedd yn ymweud ag Ethiopia, Eritrea a Somalia ond yn digwydd cynnwys dros 90% o rywogaethau Swdan, ond heb dim cyfeiriad daearyddol ar eu gyfer. A nawr yng gwlad newydd De Swdan, bydd angen llyfrau adar 'Birds of East Africa' sydd yn cynnwys mwyafrif rhywogaethau yr ardal honno. Ond mae'n debyg nad yw un aderyn penodol, y *cinnamon weaver*, gan ei fod bron yn endemig i Swdan/De Swdan yn unig, yn ymddangos mewn unrhyw lyfr adar modern! Ac oherwydd hyn ni wŷr neb fawr am y

rhywogaeth hon. (Gweler y ffoto)

Sylwer hefyd lle mae'r llun wedi'i dynnu – ar Ynys Tuti sydd wedi lleoli ynghanol dinas Khartoum ac yn yr union lle y mae Afon Nil las ac Afon Nil wen yn uno er mwyn i'r afon unedig wedyn ddilyn ei hynt tuag at yr Aifft. Ac o lannau gorllewinol yr ynys dych chi'n sylwi i'r ochr draw tuag at Omdurman (un o'r tair chwaer ddinas sydd yn ffurfio Dinas Khartoum). Ger y ddinas hon bu Brwydr Omdurman (1898); brwydr a roes derfyn ar reolaeth byddin y Mahdi a'r Swdaniaid dros yr ardal ac a roes rwydd hynt i Ymerodraeth Prydain reoli Swdan o dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Kitchener a llywodraethwyr Prydeinig tan annibyniaeth yn 1956. Un o'r brwydrau mwyaf unochrog mewn hanes yn ôl Winston Churchill a gymrodd rhan yn y frwydr – *no contest* a mwy o gyflafan na brwydr – byddin y Mahdi efo'u gwaywffyn a tharianau croen crocodeil yn erbyn byddin broffesiynol yr ymerodraeth gyda'u harfau a thechnoleg diweddaraf. Yn wir, y frwydr hon a ysbrydolodd eirau enwog Hilaire Belloc yn ei gerdd 'The Modern Traveller'. Beth bynnag am yr hanes, mae Ynys Tuti heddiw yn un o'r llefydd gorau i weld adar yn y ddinas ac yn lleoliad bendigedig i weld adar mudol gan bod yr ynys yn dir amaeth (er o dan fgythiad gan gryn gwaith adeiladu a chodi tai) ac yn strategol rhwng y ddwy afon Nil er mwyn i adar mudol gael hoe fach cyn parhau ar eu taith tua'r gogledd yn y gwanwyn, a thua'r de yn yr hydref. Maent yn dilyn trywydd Afon Nil sydd wrth reswm yn ffynhonnell bwyd iddynt

wrth orfod teithio y fath bellter nôl ac ymlaen rhwng Ewrop ac Affrica. Yno, dwi wedi gweld llwyth o wybedogod mannog ym mis hydref ac mae llawer siglen felen yn treulio'r gaeaf i gyd ar yr ynys. Mae gwybedog y gwenyn Ewropeaidd yn pasio trwodd mewn heidiau yn y ddau dymor yn ogystal â gwenoliaid y glennydd a sawl rhywogaeth mudol arall. Ond ni fydd y mudwyr hyn yn cyrraedd Cymru ond yn hytrach gwledydd Dwyrain Ewrop a Gorllewin Asia gan mai dyna'r cyfeiriad y bydd yr afon yn eu harwain o'r rhan hon o Affrica. Ar yr ynys mae hefyd gryn nifer o adar cynhenid Affricanaidd – rhai yn drofannol a lliwgar iawn megis y *red-cheeked cordon bleu*, *cut-throat finches*, *Sudan Golden sparrow*, *fire finches*, *Yellow breasted barbet* ayyb – teimlad o *deja-vu* gan i fi gofio eu gweld nhw ers talwm mewn caetsys a lluniau cylchgrawn *Cage and Aviary Birds* pan yn blentyn yng Nghymru.

Felly os bydd adarwr o Gymro yn digwydd darllen hwn ac yn debyg o gael ei hunan yn Khartoum rywdro – Ynys Tuti amdani!

Terry Barry



Cinnamon Weaver, Ynys Tuti, Khartoum 16 Medi 2011
(gyda chaniatâd Tom Jenner)

“Ers dros canrif...”

Gyda'r llifogydd yng Ngheredigion y mis diwethaf yn fyw yn y cof (a'u heffeithiau hefyd i bobl yr ardal) a rheiny y llifogydd gwaethaf yno ers dros ganrif medde nhw, pa lifogydd yn union ddigwyddod yn Nhalybont a Chymru y pryd hynny?

Ceredigion Mehefin 1858: ABERYSTWYTH: Achosodd y dymnest ddiweddar [ganol Mehefin] gryn golled i'r gymmydogaeth hon. Chwyddodd yr afon Lery, yr hon sydd yn rhedeg trwy Tal y bont, fel yr oedd yn sgubo pob peth o'i blaen. Ysgubodd wlan-weithfa yn y Bont goch...ymaith yn llwyr. Cariwyd y peiriannau gyda'r llifeiriant ofnadwy am yn agos i wyth milltir o ffordd, a thynodd ddwy bont i lawr. Lladdwyd pump o ddefaid yn Ystumtuen...Lladdwyd buwch yn y Bont Newydd, a dirfawr niweidiwyd un arall. Rhwygodd y fellten y ddaier [yno] am gannoedd o latheni hyd nes y cyrhaeddodd y gwartheg. Tarawyd gôf yn ei efail yn Esgairhir yn ei fraich....

Baner Cymru 23 Mehefin 1858

Cafwyd tymhestloedd eraill yr un mis neu ddiwrnod ar draws Cymru a Phrydain:

Wauanfawr, Arfon, Mehefin 1858: gwefr fflamlyd yn melltennu, a swm trystfawr y taranau yn llenwi pawb a braw. Lladdwyd lliaws o ddefaid gan y mellit, a phedair o wartheg godro; un i Anne Jones, Ty'n y Gerddi, a thair i Thomas Williams Tai Isaf. Yr oedd y mellit wedi rhychu'r ddaear gerllaw y gwartheg? pan oedd gwraig Hugh Thomas, Bryn Golau, yn darparu boreuwyd, ac yntau'n gwisgo mewn ystafell, daeth mellten i mewn i'r ty a rhoddes dro i'r wraig ar y llawr. Tgarawodd y gwr fel y bu farw yn y fan

Yr Herald Gymraeg 19 Meh 1858

Mae hanesion eraill yn y Twyddiadur am effeithiau'r storm ar Fynydd Illtyd, Aberhonddu lle soniwyd am fellten yn "aredig" llawr cegin Mr William Williams ac yn Llanerfyl soniwyd am ladd "tarw gwerthfawr i Robert Evans gan yr hylif trydanaw". Ar y 15 Mehefin y flwyddyn hon... Ymwelwyd [ardal Llanberis] gan ystorm ofnadwy o felt, taranau a gwlaw;...ac yna disgynai y gwlaw y bistyloedd mawrion ar hyd ochrau a llethrau y mynyddoedd, nes y dymchwelwyd miloedd lawer o dynelli o bridd a cherryg i lawr y llethrau...yn y lle a elwir Gro Coch, yn domenydd mawrion...Crym lawer o son ...fod hen wraig o Lanrwt yn dyfod gyda throl a mul..wedi ei chladdu yno..

Baner Cymru 23 Mehefin 1858 (gyda diolch i Dafydd Guto)



Dyma flwyddyn gwres a drewdod mawr "The Big Stink" yn Llundain. Bu'n rhaid golchi llenni'r Tŷ Cyffredin efo Chlorad o Galch i geisio lliniaru'r arogl carthion. Dyma'r flwyddyn cychwynwyd y broses o sefydlu system garthfossiaeth cyhoeddus i'r ddinas

Damwain ar yr afon Gonwy

EFFEITHIAU STORM?

Sion Wmffra o Lanfairfechan
A syrthiodd o ben craig
Wrth fyned draw i Gonwy
I weld ei ddarpar wraig.

O'r Creuddyn deuai Annie
Mewn cwch yn croesi'r lli.
Ond ow! Bu damwain erechyll
A boddwyd pawb ond hi!



Dyma i chwi bennill gan faledwr yn Ffair Conwy i nodi'r achlysur.

Y mae William Williams (1738-1818) o Landygai yr hanesydd Cymreig a ysgrifennodd 'History of Caernarvonshire' yn sôn am ddamwain a ddigwyddodd yn Afon Conwy yn amser Cromwell h.y. yn y cyfnod 1649-60 pan fu i un o gychoed y fferi suddo ac 80 o deithwyr ar ei bwrdd.

Llun gan Gareth Pritchard

Boddwyd y teithwyr i gyd ond un ferch ifanc — Anne Thomas oedd ar ei ffordd i gyfarfod ei darpar wr, Sion Humphries o Lanfairfechan. Trwy gyd-digwyddiad fe syrthiodd o o ben craig ym Mhenmaenmawr, ond cafodd ei achub! Mae diwedd hapus i'r hanes. Priododd y ddau a symud i fyw i Lanfairfechan. Nid dyna ddiwedd y stori. Pan fu Anne farw ar Ebrill 11eg 1744 roedd yn 116 mlwydd oed, ond bu Sion fyw am bum mlynedd arall ac fe'i claddwyd o ar Ragfyr 10fed 1749. 'Does dim cyfeiriad at oed Sion pan fuo fo farw ond y tebyg yw ei fod yn llawer ieuengach na'i wraig. Y mae'r beddau i'w gweld ym mynwent hen eglwys Lanfairfechan. Tybed ai gwyntoedd cryfion fu'n gyfrifol am y ddwy ddamwain?

Diolch i Stan Wicklen a'r Papur Bro 'Y Pentan' am y stori.

Pigion o'r Papurau Bro



Tegeirian yr Allt Wen

Yn 1821 argraffwyd llyfr yn dwyn yr enw *Tourist's Guide through the County of Caernarvonshire* gan y Parch. PB Williams, rheithor Llanrug ar y pryd. Cofrestrodd enwau amryw o flodau a dyfai yn y fro. Un o'r planhigion hyn oedd tegeirian prin iawn yn tyfu yng nghoed yr Allt Wen ar ochr Llanddeiniolen o Lyn Padarn...*Cephalanthera longifolia* ac yn y Saesneg *long-leaved helleborine*. Am wn i nid oes enw Cymraeg arno ac felly cyfeiriai ato fel tegeirian yr Allt Wen.

Les Larsen "Ar Lwybr Natur" (yn Eco'r Wyddfa 1982) a'i lun a dynnwyd ar pryd.


Cafodd hwn ei enwi'n ddiweddarach yn caldris gulddail - gweler y geiriadur ar wefan Llên Natur <http://llennatur.com/cy/node/1>

Dyma ddywed yr Atlas Planhigion: *A rhizomatous perennial herb found in a variety of woodland types on calcareous soils, usually on chalk and hard limestone but also on calcareous schist in Scotland. It prefers permanent patches of light and is most frequent on steep, rocky slopes with an open tree canopy, but is also found along woodland edges and rides, and in scrub. Lowland.*

Native (change -0.77). This species declined markedly in the 19th and 20th centuries, especially before 1970. Although collecting may have contributed to some losses (Graham, 1988), cessation of woodland management and coniferisation, both leading to denser canopies, are much more significant.


Atlas Planhigion Prydain

Dyddiadau Darganfod/ Mehefin 5/1982 Ailweld Mehefin/ 1984 Les.



Y forwyn wych a'r forwyn dywyll

..*Calyoteryx splendens* a *C. virgo*, ein dau was neidr "petrol-liw" sydd yn harddu pyllau ein hafonydd yn yr haf.



Dyma fap yn crynhoi ein cofnodion yn y gogledd, gan Allan Brandon - y wych (smotiau coch ar y map, llun ar y dde isod) a'r dywyll (glas ar y map, llun chwith).

Gwryw'r forwyn wych (!) yw'r unig un o'r ddau fath sydd yn sbortio'r streipen ar ei adain. Mae'r benywod yn wyrddach ac yn anos i'w gwahaniaethu



forwyn dywyll yn ardal Waengoleugaed, Dyffryn Clwyd, Mehefin 19, 2010. Llun: Eifion Griffiths



Ceiliog y forwyn wych ar welltyn yn Afon Elwy, ger Llanelwy, Mehefin 27, 2010 Llun: Alun Williams

Byrdi



Yr adeg yma o'r flwyddyn mae plisgyn wyau gwyddau i'w gweld o gwmpas y warchodfa a hynny am bod gwylanod—y rhai penwaig yn bennaf, yn dwyn yr wyau o nythod ac yn eu bwyta! Ond, fe wnaeth yr wylan yma goblyn o gamgymeriad—'roedd wedi codi pêl golff mewn camgymeriad! Meddylwch amdani'n ceisio malu'r plisgyn! Er gwaetha'r ffaith bod y gwylanod yn dwyn wyau'r gwyddau, mae yn y warchodfa nifer o nythod Gwyddau Canada a chymaint â deunaw o wyddau bach yn nofio'n braf yn y llyn.

Llun: Aled Williams, Gwarchodfa Natur Conwy

O'r Papurau Bro

Llun: y diweddar Wil Jones



Diddorol oedd cyfeiriad at y 'cwrllid' yn rhifyn Ebrill o'r Llais. Y llynedd rhoddais ganiatad i berchennog bragdy o Sir Gaer i gasglu cwrllid o dir Cefn uchaf [Llanbedr]. Bwriadai ei ddefnyddio i gynyrchu cwrw. Darllenais hefyd eu bod yn ei ddefnyddio i baratoi 'snapps' mewn rhai gwledydd.

Evie M Jones yn Llais Arduwly (trwy law Haf Meredydd)

Chwi gofiwch (Bwletin 38) mai o gwyrddling y daw 'cwrllid', sef yr helygen Fair yn amlach i lawer ohonom heddiw.

Tormaen siobynnog



Cwm Idwal 27 Mai 2012 Llun: Gerallt Pennant

Logo newydd Llwybr Arfordir Cymru

Be sydd yn gyffredin rhwng mynydd, tafod y ddraig, tonnau'r môr a chragen foch....?

Ewch i safle'r Cyngor Cefn Gwlad www i gael mwy o wybodaeth am y Llwybr difwlch o gwmpas Cymru sydd wedi ei sefydlu

<http://www.ccg.gov.uk/enjoying-the-country/wales-coast-path.aspx>



Wythnos ym mywyd ffermwr yn 1935

"Tach. 24, 25, 26, 27, 28, 29. Godro a cwmona. Gosod trapiau tyrchod. Llwytho 6 llwyth o dail i'r drol a'u tynnu yn dyrrau hyd Bryn Pella. Trwsio y ffordd a chau y tyllau. Rhoi pegiau yn nhrwynau moch i'w rhwystro rhag tyrchu'r buarth. Torri orfanc yn das wair hefo cylllell wair a chario pedair tringlen o'r gwair i'r beudai. Tywydd glawog oer ias y gaeaf."


Dyddiadur DO Jones 1935

Sylwadau gan Twm Elias: Gorfainc ydi y silff mae rywun yn eu greu drwy dorri ar i lawr i das wair efo cylllell wair a chario'r gwair ymaith fesul trenglan (dyna fy sillafiad i) i'r beudu gerllaw i fwydo'r gwartheg. Byddai'r orfainc yn mynd yn is ac yn is wrth i rywun gymeryd trenglan ar ôl trenglan (neu dafell ar ôl tafell) o wair o'r das. Gelwid 'cefn' yr orfainc, sef y ddwy wal (fertigol) o wellt yn 'fagwyr' (ll. 'magwrydd') mae'r magwrydd ar 90° i'w gilydd (meddylia am gymeryd blocyn sgwar allan o gornel cacen frith). Pan o'n i'n blentyn mi fyddwn wrth fy modd yn dringo'r ystol i'r orfainc – roedd o'n llwyfan cyfleus, cynnes a chysgodol i chwarae (a disgyn i gysgu weithiau). Ond os oeddwn yn eistedd efo nghefn ar y fagwyr yn darllen comic mi oedd honno braidd yn galed a phigog


Gweinidog yr Hen Gorff yn mesur y tywydd

Daeth un o ddyddiaduron William Jones, Enlli, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ar yr Ynys, i'r fei yn ddiweddar. Dyddiadur y flwyddyn 1906 ydoedd, ac yn ogystal â'i drefniadau yn y gwahanol gapeli ym Mhen Llŷn roedd o hefyd yn cofnodi'r glaw a ddisgynnodd ar yr ynys ddiwrnod olaf pob mis (neu'r diwrnod cynt os digwyddai i'r diwrnod olaf ddisgyn ar y Sabboth!)

Er i offeiriad yr eglwys Anglicanaidd ragori fel naturiaethwyr dros tair



Dilynai cofnodion WJ (graff uchaf) y stadegau swyddogol Cymru a Lloegr y flwyddyn honno yn agos. Ionawr, Mehefin a Thachwedd oedd yr eithriadau gyda ffigyrau'r gweinidog yn is o ddiwedd na'r cyfartaledd ehangach. Mae hyn yn nodweddiadol o ynysoedd sydd yn aml gyda'u "hinsawdd eu hunain"



canrif (er gwell neu waeth i'w dyletswyddau bugeiliol eraill!) ychydig o dystiolaeth sydd yna am weinidogion anghudffurfiol yn ymddiddori yn y byd o'u cwmpas (ai ar y Byd Nesaf oedd eu bryd?)

Yr haul garwyr



Dyma beth oedd ar ffram ffenestr Gwelfor, ar y 16 Mehefin eleni, sef dau bryf hofren o'r genws *Helophilus* ("yr haul garwr"). Hanci-panci doctofs-a-nyfsus!

Diolch i John Bratton am eu henwi

Deunod mewn drycin



Llun: Keith O'Brien (tynnwyd yn ardal Trawsfynydd)

Wrth glywed y gog yn canu yn y storm
Eira Mawr 17 Mai 1935

Hynod wrol aderyn - yn y storm
Cenaist ti heb ddychryn;
Methodd iâ ac eira gwyn
Niweidio dy ddau nodyn

Ioan Brothen

Llinell neu Ddwy (cyfrol deyrnged Ioan Brothen 1942) trwy law Twm Elias

o ardal Llanfrothen?

Dyma gofnodion eraill o'r un diwrnod:

Esgerdawe, Caerfyrddin 17 Mai 1935: Heavy Snow (4-4.5") [Mail]..Lawrence of Arabia buried [this week]

Dyddiadur Defi Lango

Llansilyn, Sir Dinbych 17 Mai 1935: Bwrw eira drwy'r dydd ac yn oer iawn.

Dyddiadur Hugh Jones. Cwm Canol, Llansilyn, Sir Dinbych 1900-1967


Bwlchtocyn 17 Mai 1935: Bwrw eira yn arw bore, pob man yn wyn am sbél. Yn Abersoch pnawn. Oer iawn.

Dyddiadur John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn

12-19 May 1935: *Northerly winds brought cold weather with hail, sleet and snow-showers to many places, particularly on the 17th. There was 12 cm (5 in) at Hampstead, and 11cm (4 in) at Cockle Park, Northumberland, and at Tiverton, Devon. At West Kirby, Merseyside, snow fell from 9h to 14.30h, accumulating to 5 cm (2 in), with the thermometer staying just below freezing point—though it rose above freezing as soon as the snow ceased.*

Stirling, R. (1982) The Weather of Britain Faber

Rhyfeddod y rhyfeddodau



Dyma daith y cymerodd un o bum cog a gafodd eu harneisio gan adarwyr y BTO gyda radio bychan er mwyn eu dilyn o fan eu genedigfaeth yn Norfolk, i'w gaeafan (fel y darganfuwyd, yn y Congo yn Affrica), ac yn ôl i Norfolk, a hynny ar lwybr tra gwahanol na'r daith allan. Meddyliwch am

gog druan, ar ôl y fath daith, yn wynebu eira fel y gwnaeth cog Ioan Brothen yn 1935.

Mae teithiau'r cogau hyn i'w gweld ar wefan y BTO. Mae Kelvin Jones, Swyddog BTO wedi sicrhau arian i wneud yr un peth gyda phump o gogau Cymru

Blodyn Samon y Cofi

Blodyn samon? Dyna enw sgotwyr samon Caernarfon ar fysedd cwn, oherwydd ei fod yn goch fel samon mae'n debyg.

Tony Lovell (drwy law Ifor Williams)



Tony hefyd yn dweud ei fod wedi blodeuo yn gynt eleni, 24 o Fai. Dywedodd bod rhaid aros am y blodyn samon i flodeuo, sef bysedd y cwn i chi a fi wrth gwrs, cyn y bydd y gwyniad neu'r siwin yn rhedeg.

Ifor Williams

Enwau eraill am fysedd y cwn: Bysedd Cochion, Bysedd Ellyllon, clatch y cwn.

A dyma fysedd eraill:

Bysedd Traed y Frân
Bysedd y Diafol (pys y ceirw)
bysedd-y-blaidd (*lupin*)

Prawf!




Llunia o wennol a dryw yn porthi cywion Dryw. Mae'n rhoi syniad o be oedd yn mynd ymlaen.

Lluniau: Wil Williams

Dyma brawf, os oedd angen prawf erioed, bod adar yn "mabwysiaidau" cywion rhywogaethau eraill. Tybed beth yn union oedd y cymhelliad? Y wennol yn ymateb i unrhyw swm clebran cyw swnllyd yng nghyffiniau ei nyth? Ond oni fuasai'r dryw yn ceisio gwneud yr un peth gyda chywion y wennol?

Tymheredd pridd Llys Awel, Waunfawr



Dyma fesur gwanwyn rhyfedd 2012 - tymheredd crynhodol dyddiol y pridd eleni (cromlin glas golau) gyda chromlinau y llynedd (melyn), 2007 (y gwanwyn cynharaf ers i Huw ddod yno i fyw coch) a 1996 (y gwanwyn hwyraf).

Mae'r lwmp yng nghromlin eleni (saeth) yn adlewyrchu mis Mawrth eithriadol braf a chynnes ond gydag Ebrill a Mai gwlyb ac oer, methodd y pridd a chynhesu o hynny ymlaen.

Gwybodaeth Huw Holland Jones

Gwirod mwyar

Moras (Sbaeneg), mûre (Ffrangeg), mwyar (Cymraeg)

oes rhaid dweud mwy?

